adnabod arlunydd

ELWYN IOAN





Nid wyf yn cofio dechrau arlunio—mae mor bell yn ôl â hynny! Cofiaf, serch hynny, y dylanwad cynnar yn iawn. Un Nadolig pan oeddwn tuag wyth oed, prynodd fy mrawd lyfr o gartwnau Giles yn anrheg i fi. Porais yn hwnnw o glawr i glawr dros y gwyliau gan ryfeddu at ei glyfrwch a'i ddoniolwch a chan esgeuluso fy ngwaith ysgol yn llwyr.

Ychydig yn ddiweddarach euthum i'r ysgol fawr yn Aberystwyth ac yn ffodus tu hwnt yr atho celf yno oedd y diweddar Hywel Harries. Roedd e'n gartwnydd amlwg a medrus iawn a bu ei ddylanwad yn gryf arnaf dros y blynyddoedd.

Rwy'n gweithio fel cartwnydd/darlunydd hunan-gyflogedig ers chwe blynedd bellach. Cyn hynny bûm am flynyddoedd yn gweithio i un o weisg bywioca' Cymru. Yn ogystal â darlunio llyfrau byddaf hefyd yn gweithio i gylchgronau megis *Golwg,* cyhoeddiadau'r Urdd, y comic *Penbwl* ac i nifer o sefydliadau eraill, fel Prifysgol Cymru. Rwy'n gwneud ychydig o waith teledu yn achlysurol.

Mae angen hunanddisgyblaeth go lem ar unrhyw un sy'n gweithio ar ei liwt ei hun. Byddaf yn codi bob bore am chwech ac yn dechrau gweithio tua chwarter i saith. Os bydd yr amserlen yn drymach nag arfer, byddaf yn codi am bump. Wir! Rwy'n mwynhau ysgrifennu hefyd a'r gobaith yn y dyfodol yw cyfuno'r ddau weithgaredd fwy a mwy. Bydd rhaid codi'n gynt wedyn!

Yn rhyfedd ddigon mae 'na ryddid a chaethiwed ynghlwm wrth fod yn hunan-gyflogedig: rhyddid i fynd a dod, dewis a dethol. Ond ar y llaw arall mae'n anodd iawn rhoi'r gwaith o'r neilltu, yn enwedig os ydych chi, fel fi, yn byw a gweithio yn yr un tŷ. Mae'n rhy hawdd o lawer taro lan i'r stiwdio i orffen darn o waith pan ddylech fod yn ymlacio. Rhaid cyfaddef, er hynny, y byddai dychwelyd i weithio'n llawn amser i gwmni yn anodd ar y naw.